Senedd Cymru
Y Pwyllgor Busnes

—

Welsh Parliament
Business Committee

Llyr Gruffydd AS

Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

---

7 Gorffennaf 2021

Annwyl Llyr

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil yr Amgylchedd

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Gorffennaf 2021 mewn perthynas â'r amserlen ar gyfer y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Amgylchedd, a drafodwyd gan y Pwyllgor Busnes yn ei gyfarfod ar 6 Gorffennaf. Cadarnhaodd y Trefnydd fod y Gweinidog Newid Hinsawdd wedi cael y cais i ddod i gyfarfod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith cyn toriad yr haf, ac y bydd yn ymateb maes o law.

Mae'r Pwyllgor Busnes yn ymwybodol bod yr amserlen ar gyfer y Memorandwm yn fyrrach nag arfer, ond deallwn fod hyn yn ganlyniad uniongyrchol i amserlen Senedd y DU ar gyfer y Bil. Dywedodd y Trefnydd wrth y Pwyllgor Busnes fod y llywodraeth ar hyn o bryd yn aros am ymateb gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd i gais i aildrefnu trydydd darlleniad yr Arglwyddi er mwyn rhoi mwy o amser i gynnal gwaith craffu yn y Senedd.

Mae'r llywodraeth hefyd wedi ymestyn yr amser ar gyfer dadl ar y Memorandwm ar 14 Medi i 45 munud, a dywedodd y Trefnydd y bydd y Gweinidog yn ymateb i argymhellion y pwyllgorau yn ystod y ddadl.

Yn gywir

Elin Jones AS

Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPwyllgorBusnes@Senedd.cymru
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
0300 200 6565